Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl344

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Cyllid**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**
Gwnaed penderfyniad yn flaenorol i gyd-gyllido’r tîm trosglwyddo Glasbrint yn gweithio gyda thîm Polisi Llywodraeth Cymru i drosglwyddo newid trawsffurfiol a chydlynu gweithgarwch amlasiantaeth i drosglwyddo yn erbyn Strategaeth Genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru (2022-26). Y mae wedi cymryd peth amser i ymwreiddio’r Tîm Glasbrint fel rhan o dîm Polisi Llywodraeth Cymru ond mae hwn nawr wedi ei sefydlu, gydag adnoddau Glasbrint pwrpasol yn llywio ac yn hwyluso gweithgarwch i adeiladu tystiolaeth, cydlynu gweithgarwch gyda phartneriaid a chydgrynhoi dysgu yn unol â’r cynllun trosglwyddo trosfwaol.
Yn dilyn ystyried papur a dderbyniwyd ym Mhlismona Cymru ar 12 Medi 2024, gwnaed penderfyniad mewn egwyddor i ymrwymo i barhau i gyllido ar gyfer y cyfnod 2025-28 a fyddai’n galluogi i gontractau’r Tîm Glasbrint gael eu hymestyn. Yr arwyddion cychwynnol yw bod Llywodraeth Cymru’n bwriadu parhau dyraniad cyllido o £132 mil am 3 blynedd bellach (2025-2028), ar y rhagdybiaeth nad oes toriadau arwyddocaol annisgwyl i gyllidebau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ni fydd hysbysu ffurfiol yn digwydd tan Rhagfyr 2024. Ar sail y cyfraniadau cyfredol, byddai gofyn i bob CHTh gyfrannu tua £40 mil bob blwyddyn ariannol. Darperir manylion pellach cyn yr ymrwymiad terfynol.

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo mewn egwyddor barhad cyllido ar gyfer gweithgarwch Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru, er y bydd cadarnhau’r ymrwymiad yn seiliedig ar ddarparu manylion pellach.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 12 Medi 2024**